## Hysbysiad Preifatrwydd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Cynradd (SHRN)

**Pwrpas yr hysbysiad hwn yw rhoi sicrwydd bod Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr dwyflynyddol y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data, 2018.**

**Cysylltwch â ni: PrimarySHRN@ac.uk**

**Pwy ydym ni?**

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Canser y DU. Mae'n cael ei arwain gan yr Athro Simon Murphy yn y Ganolfan Datblygu, Gwerthuso, Cymhlethdod a Gweithredu ym maes Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bob dwy flynedd, mae ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n aelodau o SHRN yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Mae data dienw a chyfanredol y myfyrwyr yn cael eu bwydo'n ôl i ysgolion drwy'r Adroddiadau Data pwrpasol ar Iechyd a Lles Myfyrwyr. Gellir defnyddio'r adroddiadau data hyn at ddibenion cynllunio gweithredu gweithgareddau a'r broses o hunanwerthuso'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles. Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn cael eu bwydo'n ôl i Awdurdodau Lleol er mwyn helpu i gynllunio camau gweithredu, ac mae data ar gael i'r cyhoedd ar lefel awdurdod lleol, bwrdd iechyd a chenedlaethol drwy ddangosfwrdd data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/dangosfwrdd-data-shrn/. Datblygwyd hwn ar y cyd rhwng Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Ymchwil a Gwerthuso Iechyd y Cyhoedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a DECIPHer.

Defnyddir data'r arolwg hefyd ar gyfer ymchwil i iechyd a lles pobl ifanc yn yr ysgol. Ariennir yr arolwg gan Lywodraeth Cymru.

**Sut ydym ni'n casglu ymatebion i'r arolwg?**

- Rheolir yr arolwg gan Ipsos (y prosesydd data) ar ran Prifysgol Caerdydd (y rheolydd data).
- Ysgolion yn trefnu cyflwyno'r arolwg, yn dilyn arweiniad a ddarparwyd gan SHRN.
- Mae myfyrwyr ym mlynyddoedd 3 i 6 yn cynnal yr arolwg yn yr ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth staff yr ysgol.

Cynhelir yr arolwg ar-lein a'i gwblhau ar gyfrifiaduron neu lechi ar dir yr ysgol.

**Pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu?**

Mae'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn gofyn i bobl ifanc am ystod eang o ymddygiadau iechyd, sut maen nhw'n teimlo am yr ysgol a gwybodaeth ddemograffig. Nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw'r disgyblion ac ni fyddwn yn gofyn am enwau'r disgyblion ar unrhyw adeg.

Cesglir y wybodaeth sensitif ganlynol gan bob myfyriwr:

- Tarddiad ethnig

**Pa mor hir ydyn ni'n storio ac yn defnyddio data?**

Cesglir data gan Ipsos ac yna'i drosglwyddo'n ddiogel i Brifysgol Caerdydd. Bydd holl atebion y disgyblion yn gwbl ddienw gan na fydd y tîm ymchwil yn gwybod pwy sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Hefyd, gall data gael ei ddefnyddio gan y tîm ymchwil, neu ymchwilwyr cymeradwy eraill, at ddibenion ymchwil anfasnachol yn y dyfodol. Gall data dienw o'r arolwg gael ei gadw am gyfnod amhenodol os oes ganddo werth at ddibenion ymchwil wyddonol, er enghraifft fel y gallwn gyfuno data ag arolygon cynt, a hwyrach i ddeall newidiadau mewn lles plant dros gyfnod.

**Hawl i gwyno**

Prifysgol Caerdydd yw'r Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef yn inforequest@caerdydd.ac.uk. Mae rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, gan gynnwys eich hawliau a manylion am sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os dymunwch gwyno, ar gael yn y canlynol: https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

**Hawliau unigol**

Mae gennych nifer o hawliau o dan gyfraith diogelu data a gallwch gael rhagor o wybodaeth am y rhain ar ein gwefan.

https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

Sylwch fod eich hawliau i gael mynediad at, newid neu symud eich data personol yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch yr ydym eisoes wedi'i chael. Er mwyn diogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol adnabyddadwy.

Dyddiad y ddogfen: 06.06.24